

# BYW A BOD

## ONE LIFE – TWO LANGUAGES

Astudio a byw yn y Gymraeg ac  
yn ddwyieithog yn Ceredigion

---

Studying and living in Welsh  
and bilingually in Ceredigion



CYMRÆG

Os ydych chi eisiau i'ch plentyn fod yn rhugl yn y Gymraeg a Saesneg, dewisiwch Addysg cyfrwng Cymraeg. Bwriad y llyfryn hwn yw ateb cwestiynau, mynd i'r afael â phryderon a nodi'r manteision sy'n gysylltiedig a bod yn ddwyieithog.

If you want your child to be fluent in both Welsh and English then choose Welsh medium education. The aim of this booklet is to answer questions, address doubts and state the advantages of being bilingual.

## Beth yw ystyr gallu siarad dwy neu fwy o ieithoedd?

Y gallu i fyw eich bywyd bob dydd mewn dwy iaith neu fwy!

Y gallu i symud o un iaith i'r llall yn rhugl a hyderus pan fyddwch yn dymuno.

## What does it mean to be able to speak two or more languages?

The ability to live your everyday life through the medium of two languages or more!

The ability to move fluently and with confidence from one language to the other whenever you wish.

## Oeddech chi'n gwybod?

Yn Sir Ceredigion mae tua hanner o'r boblogaeth yn gallu siarad y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae dwyieithrwydd ac amlieithrwydd yn norm yn fyd-eang gyda thua **70%** o'r boblogaeth yn siarad mwy nag un iaith yn eu bywyd bob dydd.

Ar sail nifer ei siaradwyr, mae'r Gymraeg yn perthyn i'r **15%** uchaf o blith y **6,000** o ieithoedd a gaiff eu siarad ar draws y byd.

## Did you know?

In the county of Ceredigion around half the population can speak Welsh and English.

Bilingualism and multilingualism is the norm world-wide and around **70%** of the population speak more than one language in their everyday lives.

Based on the number of speakers, the Welsh language belongs to the highest **15%** of the **6,000** languages that are spoken world-wide.

A substantial portion of the people of Ceredigion live their personal lives and work through the medium of Welsh and bilingually.

Mae cyfran sylweddol o bobl Ceredigion yn byw eu bywydau personol a'u gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog.

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru '**Miliwn o Siaradwyr** erbyn **2050**' yn nodi bod cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a chreu amodau ffaithiol iddi ffynnu yn nod genedlaethol. Mae'n nodi fod y Gymraeg yn un o drysorau Cymru ac yn rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl.

The Welsh Government strategy to achieve the target of **one million** Welsh speakers by **2050** states that increasing the number of Welsh speakers, increasing the use of the Welsh language, and creating favourable conditions for it to thrive is a national aim. It states that the Welsh language is one of Wales' treasures and is part of what defines us as people and as a nation.



## Meddylwch am iaith fel hyn... Think of language like this...

Mi fedrwnch fynd i lefydd  
ar un olwyn (iaith)



You can go to  
places on one  
wheel (language)

Felly hefyd ar olwyn  
fawr ac olwyn fach



You can also do so  
on one big wheel and  
one small wheel



Ond pan fo'r ddwy olwyn yr un maint ac mewn  
cyflwr da mi ewch ymhellach o lawer

But when both wheels are of the same size  
and in good condition you will go much further

## Manteision bod yn ddwyieithog

### Addysg

Mae plant dwyieithog yn tueddu i fod yn  
fwy llwyddiannus yn yr ysgol a'r coleg.  
Maent yn tueddu i gyflawni'n well mewn  
arholiadau

“mae plant dwyieithog yn fwy tebygol  
o gael gwell canlyniadau arholiadau”  
Richard Gartner (The Independent).

Mae pobl ddwyieithog yn ei gweld yn  
haws i ddysgu ieithoedd ychwanegol

## The advantages of being bilingual

### Education

Bilingual children tend to be more  
successful at school and university. They  
tend to attain better qualifications

“bilingual children are more likely to get  
better exam results” Richard Gartner  
(The Independent).

Bilingual people find it easier to learn  
additional languages

“mae ymchwil rhyngwladol yn  
cadarnhau bod plant dwyieithog yn gallu  
meddwl yn fwy creadigol a hyblyg ac yn  
tueddu i sgorio'n well mewn profion IQ  
na plant sy'n siarad un iaith yn unig”

Ar gyfartaledd mae canlyniadau profion ac  
arholiadau Saesneg plant dwyieithog yn  
uwch na chanlyniadau plant sy'n siarad un  
iaith yn unig.

Byddwch yn datblygu sgiliau trawsieithu  
(defnyddio gwybodaeth a geir mewn  
un iaith mewn iaith arall) a fydd yn eich  
cynorthwyo i ddeall a dehongli deunydd  
darllen yn well a chael gwell dealltwriaeth  
o'r pwnc.

“international research confirms that  
bilingual children can think more  
creatively with more flexibility and tend  
to score higher in IQ tests than children  
who speak only one language”

On average, the English test and exam  
results of bilingual children are higher  
than the results of children who speak  
only one language.

You will be able to develop translanguaging  
skills (using information from one language  
in another language) which will help you to  
understand and interpret reading material  
better and improve your understanding of  
the subject.

## Mae ymchwil yn dangos fod plant sydd yn siarad dwy iaith:

yn llai tebyg o gollu eu cof wrth heneiddio  
(Dr Ellen Bialystak)

yn dangos mwy o allu mewn meysydd eraill yn bedair a phum mlwydd oed  
(Dr Ellen Bialystak, Prifysgol Efrog, Canada)

yn meddwl yn fwy hyblyg a chreadigol

**The research has shown that children who speak two languages:**

show more ability in other subjects when they are four and five years old  
(Dr Ellen Bialystak, University of York, Canada)

“Bilingual students do better in Science and Maths reasoning tests compared to monolingual children.”

Professor Colin Baker, International Expert on Bilingual Education

are less likely to lose their memory as they grow older  
(Dr Ellen Bialystak)

“Mae disgyblion dwyieithog yn gwneud yn well mewn profion rhesymu Gwyddoniaeth a Mathemateg o’u cymharu â disgyblion uniaith.”

Yr Athro Colin Baker, Arbenigwr Rhyngwladol ar Addysg Ddwyieithog

think more flexibly and creatively

## Gyrfa

Mae siarad dwy iaith neu fwy yn rhoi sgil arall ar eich CV.

Ar gyfartaledd, mae pobl ddwyieithog yn ennill rhwng **8 a 10%** o gyflog ychwanegol oherwydd eu gallu i weithio mewn dwy iaith (Dr Colin Baker, Prifysgol Bangor).

Mae tua **40%** o swydd ddisgrifiadau yng Nghymru yn gofyn am y gallu i siarad **Cymraeg a Saesneg**.

Mae angen gweithluoedd dwyieithog ar gyflogwyr yng Nghymru, gan fod angen cynyddol i ddarparu gwasanaethau’n ddwyieithog. Mae siarad Cymraeg o fantais mawr yn y Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru yn ogystal â’r sector breifat.



# Career

**The ability to speak two or more languages is another skill on your CV.**

On average, bilingual people earn between 8 and 10% additional salary because of their ability to work in two languages (Dr Colin Baker, Bangor University).

Around 40% of job descriptions in Wales require the ability to speak English and Welsh.

Employers in Wales need bilingual workforces, as there is an increasing need to provide services bilingually. Speaking Welsh is a huge advantage in the Public Sector in Wales as well as in the private sector.



Llun/Picture: Potoroyalty / Freepik

# Bywyd a Lles

Mae siarad dwy iaith yn gallu ehangu eich gorwelion. Mae dwyieithrwydd yn dueddol o godi hunan hyder a hunan barch unigolyn.

Mae medru'r iaith Gymraeg yn rhoi mynediad i elfen fawr o ddiwylliant, hanes a hunaniaeth Cymru.

Mae medru'r Gymraeg yn allwedd i fywyd cymunedol cyfoethog.

Mae medru'r Gymraeg yn rhoi hunaniaeth gadarn ac ymdeimlad o berthyn.

Mae medru symud o un iaith i'r llall yn hyderus yn magu hyder a balchder yn yr unigolyn.

Gall pobl aml-ieithog fod yn fwy goddefgar tuag at ddiwylliannau eraill.

# Life and well-being

Speaking two languages can expand your horizons. Bilingualism tends to increase a person's self-confidence and self-esteem.

Being able to speak Welsh gives access to a great degree of Welsh culture, history, and identity.

Being able to speak Welsh is key to a rich community life.

Being able to speak Welsh gives a strong identity and a feeling of belonging.

Mae ymchwil yn dangos bod dwyieithrwydd yn creu meddwl effro ac agwedd agored sy'n helpu lles cyffredinol ac iechyd meddwl.

Gall dwyieithrwydd gryfhau'r galluoedd gwybyddol – mae pobl ddwyieithog yn tueddu i fod yn fwy creadigol a hyblyg. Mae tueddiad ganddynt i gael meddwl mwy agored, ac maent hefyd yn ei chael yn haws canolbwyntio ar amrywiaeth o dasgau ar unwaith.



Llun/Picture: Freepik

Being able to move from one language to another confidently increases a person's confidence and pride.

Multilingual people can be more tolerant towards other cultures.

Research shows that bilingualism creates an alert mind and an open attitude that helps with general well-being and mental health.

Bilingualism can strengthen cognitive ability – bilingual people tend to be more creative and flexible. They tend to have a more open mind and they also find it easier to concentrate on a variety of tasks at once.

# LLWYBR I'R GYMRAEG

Gall pob plentyn yn Sir Ceredigion ddod yn ddwyieithog drwy gael addysg Gymraeg. Dyma sut:

## Cyn oed Ysgol

**Fe allwch chi ddechrau taith eich plentyn at ddwyieithrwydd o'r crud:**

- Cymraeg i Blant – Grwpiau cyn-geni, Grwpiau Tylino, Grwpiau Ioga Babi a Grwpiau Stori a Chân
- Cylchoedd Ti a Fi – Grwpiau i rieni a phlant bach lle gall eich plentyn fwynhau chwarae a gwneud ffrindiau mewn awyrgylch Gymraeg
- Sesiynau o fewn y gymuned megis rhai 'Tic Toc'
- Meithrinfeydd – Mae yna feithrinfeydd dydd dwyieithog sy'n cyflwyno'r Gymraeg i blant o'r cychwyn, drwy weithgareddau yn Gymraeg a thrwy gyfathrebu'n Gymraeg gyda'r babis a'r plant bach
- Cylchoedd Meithrin – Sesiynau addysg a datblygiad i blant o ddwy flwydd oed hyd at oed ysgol. Mae cyfle i blant gymdeithasu a dysgu
- trwy chwarae yn Gymraeg
- Dosbarthiadau Meithrin yn yr ysgol – Mae gan rai ysgolion ddosbarthiadau Meithrin a bydd y dosbarthiadau hyn fel arfer yn Gymraeg os ydy'r ysgol yn un Gymraeg.

Mae gwybodaeth bellach am addysg ar wefan Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

<http://fis.ceredigion.gov.uk/cy/adref/addysg-a-hyfforddiant/>

# PATHWAY TO WELSH

Each child in Ceredigion can become bilingual by having a Welsh education. This is how:

## Pre-School

**You can begin your child's journey towards bilingualism from the cradle:**

- Welsh for Children – Antenatal groups, Massage groups, Baby yoga groups and Story and Song groups
- Ti a Fi Groups – Groups for parents and small children where your child can enjoy playing and making friends in a Welsh environment
- Community sessions such as 'Tic Toc'
- Nurseries – There are bilingual day nurseries that introduce Welsh to children from the start, through activities in Welsh and communicating in Welsh with the babies and small children

- Nursery Groups – Education sessions and development for two-year-old children up to school age. The children have an opportunity to socialise and learn
- by playing in Welsh
- Nursery classes at school – Some schools have Nursery classes and these classes will be in Welsh usually if the school is a Welsh medium school.

There is further information about early education on the Information Service for Families website

<http://fis.ceredigion.gov.uk/home/education-and-training/>

# Ysgolion Cynradd

Yn Sir Ceredigion, ceir addysg cyfrwng Cymraeg i holl blant a phobl ifanc o fewn cyrraedd rhesymol i'w cartrefi.

Yn y Cyfnod Sylfaen bydd plant yn datblygu eu medrau iaith mewn gwahanol weithgareddau hwyliog ac ymarferol. Caiff eu profiadau llafar eu defnyddio i'w helpu i ddatblygu eu medrau darllen a'u medrau ysgrifennu.

Mae addysg Gymraeg yn defnyddio Cymraeg yn bennaf fel y cyfrwng addysgu, ac fe fydd y plant yn dysgu Cymraeg a Saesneg fel pwnc yn ogystal.

Bydd plant sy'n derbyn addysg Gymraeg yn gallu trosglwyddo i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg, beth bynnag yw iaith y cartref.

Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn trochi plant yn y Gymraeg o'r dechrau.

Mae'r plant yn siarad Cymraeg yn y dosbarth ac yn cael eu hannog i ddefnyddio Cymraeg wrth gymdeithasu ac wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae cael profiad o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd yn gwella safon eu Cymraeg ac yn sicrhau eu bod yn dod, ac yn aros, yn gwbl ddwyieithog.

Os ydych yn symud i Geredigion a bod eich plant eisoes wedi dechrau ar addysg ffurfiol mae canolfannau iaith penodedig o fewn y sir fydd yn cyflwyno'r Gymraeg i'ch plant er mwyn iddynt fod yn rhan o'r ysgol ar gymuned leol.

# Primary School

In Ceredigion, there is Welsh medium education for all children and young people within a reasonable distance to their homes.

In the Foundation Phase children will develop language skills in various fun and practical activities. Oral experiences are used to help them to develop their reading and writing skills.



Welsh is mainly used as the medium of education in Welsh education, and children will also learn Welsh and English as subjects.

Children who are educated in Welsh can transfer to a Welsh-medium secondary school, whichever language is spoken at home.

Welsh language education immerses children in the Welsh language right from the start.

The children speak Welsh in the class and are encouraged to use Welsh socially and when they take part in activities. Experiencing Welsh in every aspect of life improves the standard of their Welsh and ensures that they become, and remain, bilingual.

If you are moving to live in Ceredigion and your children have already started formal education there are dedicated language centres in the county which will introduce Welsh to your children so that they can be part of the school and the local community.



## Ddylwn i boeni?



Should I be concerned?

### What if I don't speak Welsh?

If you don't speak Welsh, don't worry. All the education establishments welcome non-Welsh speaking parents who want to introduce Welsh to their children.

### Beth os nad ydw i'n siarad Cymraeg?

Os nad ydych chi'n siarad Cymraeg, peidiwch â phoeni. Mae'r sefydliadau addysg i gyd yn croesawu rhieni di-Gymraeg sydd am gyflwyno'r Gymraeg i'w plant.

### Beth os nad ydw i'n hyderus i siarad Cymraeg?

Os ydych chi'n siarad rhywfaint o Gymraeg, yna ceisiwch siarad cymaint ag y gallwch chi yn Gymraeg gyda'ch plant. Fe fydd hyn yn eu cynorthwyo i siarad yn naturiol a hyderus. Am restr o eiriau ac ymadroddion defnyddiol i'w defnyddio gyda phlant bach a gwybodaeth ehangach am y Gymraeg ewch i [www.cymraeg.gov.wales](http://www.cymraeg.gov.wales)

### What if I am not confident speaking Welsh?

If you can speak some Welsh, try speaking in Welsh as much as possible with your children. This will help them to speak naturally and confidently. For a list of words and sayings that are useful with small children and wider information about the Welsh language go to [www.cymraeg.gov.wales](http://www.cymraeg.gov.wales)

# CERI SIARAD

Mae Ysgolion cynradd Ceredigion wedi ymrwymo i ddilyn y Siarter Iaith Genedlaethol sydd yn annog defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Nod y siarter yw i ysbrydoli ein pobl ifanc i ddefnyddio'u Cymraeg ym mhob agwedd o'u bywydau.



Primary schools in Ceredigion have signed up to follow the National Language Charter that encourages the use of Welsh socially. The aim of this charter is to inspire our young people to use Welsh in every aspect of their lives.



Symudodd Hugo gyda'i deulu i sir Ceredigion yn 2015. Dysgodd y Gymraeg mewn 11 wythnos drwy fynychu Canolfan Iaith Felinfach ac Ysgol y Dderi.

## HUGO WADDINGTON

“Pan fi'n siarad Cymraeg fi'n teimlo'n eithaf cryf. Fi'n teimlo bod fi'n gallu hedfan gyda'r iaith. Mae'n neud i fi deimlo'n dda!”

### Jo a Rufus Waddington (rhieni Hugo)

“Roedd y ddau ohonom ni'n sylweddoli ein bod yn symud i ardal lle'r oedd llawer o bobl yn siarad Cymraeg, felly roeddwn yn awyddus i'r plant fod yn rhan o'r gymuned ac yn gallu siarad â phobl yn y gymuned yn eu hiaith eu hunain..

“Roeddem yn gofidio i ddechrau, ond roedd yr ysgol mor groesawgar ac wedi tawelu ein meddyliau am unrhyw bryderon. Os ydynt yn symud pan yn oed iau, fel ein plant ni, yna maent yn cael cymorth ychwanegol drwy fynd i mewn i'r ganolfan iaith Gymraeg yn Felinfach am dymor. Rhoddodd y Ganolfan hwb ychwanegol yn y Gymraeg i'r plant cyn iddynt fynd i'r ystafell ddosbarth.”

## ASTUDIAETH ACHOS

Hugo and his family moved to live in Ceredigion in 2015. He learnt Welsh in 11 weeks by attending the Felinfach Language Centre and Ysgol y Dderi.

## HUGO WADDINGTON

“When I speak Welsh, I feel quite strong. I feel that I can fly with the language. It makes me feel good!”

### Jo and Rufus Waddington (Hugo's parents)

“Both of us realised that we were moving to an area where many people spoke Welsh, so we were very keen for the children to be part of the community and be able to speak with people in their own language.

“We were worried to begin with, but the school was so welcoming and we have been reassured when we had any concerns. If children move when they are younger, like our children, they are given extra support by going to the Welsh language centre in Felinfach for a term. The centre gave the children an extra boost in Welsh before they went to the classroom.”

## CASE STUDY

Os yw'ch plentyn wedi derbyn addysg gynradd drwy gyfrwng y Gymraeg mae'n beth naturiol i barhau i wneud hynny hefyd ar lefel uwchradd.

### Mae nifer o fanteision o wneud hyn:

- bydd y dilyniant yma yn gwneud y newid o'r cynradd i'r uwchradd yn llawer haws i'ch plentyn
- mae ymchwil yn dangos fod y sgiliau iaith gwerthfawr ddysgodd eich plentyn yn yr ysgol gynradd yn cael eu colli'n gyflym os yw cyfrwng yr addysgu yn newid,
- mae sgiliau dwyieithog plant yn datblygu orau wrth eu defnyddio bob dydd. Drwy barhau i dderbyn addysg Gymraeg neu ddwyieithog bydd eich plentyn yn gwella'i sgiliau iaith presennol, gan ddod yn fwy rhugl.

If your child was educated through the medium of Welsh at primary school it is a natural progression to continue to do so at secondary level also.

### There are many advantages in doing so:

- this continuity makes the change from primary to secondary much easier for your child
- research shows that the valuable skills your child learnt at primary school are quickly lost if the language medium of education changes,
- children's bilingual skills develop best when they are used every day. By continuing to receive Welsh or bilingual education your child's current language skills will improve and they will become more fluent.

# Pryderon cyffredin rhieni

Sut alla i helpu gyda gwaith cartref fy mhlentyn os dydw i ddim yn siarad llawer o Gymraeg?

Mae ysgolion Cymraeg yn nodi cyfarwyddiadau gwaith cartref yn Gymraeg ac yn Saesneg, felly fydd dim trafferth gennych chi o ran deall pa waith sy'n rhaid i'ch plentyn ei wneud. Bydd pob ysgol unigol yn fodlon cynnig cyngor ar addysg eich plentyn a bydd y nosweithiau rhieni yn cael eu darparu yn eich dewis iaith.

## Ble arall gallaf fynd i gael help?

Mae gwefan [hwb.wales.gov.uk](http://hwb.wales.gov.uk) yn darparu amrywiaeth o gyfleusterau ac adnoddau dysgu cenedlaethol fydd yn gymorth i ddisgyblion a'u rhieni.

## Beth fydd yr ysgolion yn ei wneud i fy helpu?

Bydd gwaith yn cael ei osod yn addas i lefel a gallu'r disgybl. Fe fydd, felly, o fewn cyrraedd gallu eich plentyn. Wrth i blant dyfu'n hŷn a datblygu'n ddysgwyr annibynnol, mae'n debygol y byddant yn hapus i fwrw ati heb arweiniad ychwanegol gan rieni.

## A fydd fy mhlentyn yn deall ac yn gallu egluro i mi?

Ar gyfartaledd, mae plant dwyieithog yn cyflawni'n well yn Saesneg. Hefyd, drwy esbonio gwaith cartref i'w rhieni yn Saesneg, maent yn atgyfnerthu eu gwybodaeth a dyfnhau eu dealltwriaeth eu hunain. Gofynnwch i'ch plentyn ddisgrifio'r hyn mae'n gwneud yn ei eiriau ei hun.

Am gymorth ac adnoddau ewch i safle Cymraeg Llywodraeth Cymru  
<http://cymraeg.llyw.cymru/>

# Common concerns for parents

How can I help with my child's homework if I do not speak much Welsh?

Welsh schools note the instructions for homework in Welsh and English, so you will have no difficulty understanding what work your child is doing. Each individual school is willing to offer advice on your child's education and parents' evenings will be provided in your choice of language.

## Where else can I go to get help?

The website [hwb.wales.gov.uk](http://hwb.wales.gov.uk) provides a variety of national learning facilities and resources that will support pupils and their parents.


## What will the schools do to help me?

The work set will be appropriate for the pupil's level and ability. It will therefore be within your child's reach. As children grow older and develop to be independent learners, it's likely that they will be happy to carry on with their work without any extra help from their parents.

## Will my child understand and be able to explain to me?

On average, bilingual children achieve better results in English. Also, by explaining the homework to their parents in English, they are reinforcing their information and deepening their own understanding. Ask your child to describe what he/she is doing in his/her own words.

For support and resources go to the Welsh Government's Welsh website  
<http://cymraeg.llyw.cymru/>



# Ysgolion Uwchradd

Mae addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg ar gael o fewn pellter rhesymol i bob cartref yn Sir Ceredigion.

Gall unrhyw blentyn sydd yn rhugl ddwyieithog yn yr ysgol gynradd ddilyn llwybr llyfn i addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol uwchradd.

Yn union fel yn y cynradd, fe addysgir Cymraeg a Saesneg fel pynciau unigol mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Defnyddir y Gymraeg hefyd fel cyfrwng addysgu ar gyfer pynciau eraill ac fel cyfrwng gweithgareddau allgyrsiol. Fel hyn, mae dwyieithrwydd person ifanc yn cael ei gynnal a'i ddatblygu drwy gydol ei addysg.

Fe fydd disgwyl i berson ifanc sydd wedi dilyn iaith gyntaf yn y cynradd i barhau gyda'r rhaglen hwn yn yr uwchradd er mwyn iddynt allu parhau i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol yn Saesneg ac yn Gymraeg hyd nes iddynt adael ysgol uwchradd.

Os ydych yn ansicr ynglŷn â'r llwybr y dylai eich plentyn ddilyn o'r cynradd i'r uwchradd o safbwynt cyfrwng dysgu, fe fydd yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd yn gallu rhoi arweiniad i chi sy'n dilyn protocol sirol.

Gan fod Saesneg yn iaith amlwg ar y cyfryngau, y cyfryngau cymdeithasol ayb, bydd sgiliau Cymraeg pobl ifanc yn cael eu hatgyfnerthu os ydynt yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth gymaint â phosibl. Mae'n syniad da i roi'r cyfle iddynt i ddefnyddio'u Cymraeg gartref, yn eu gweithgareddau hamdden neu wrth wylïo'r teledu.



# Secondary School

Welsh language secondary education is available within a reasonable distance of every home in the county of Ceredigion.

Any child who is fluently bilingual at primary school can transfer seamlessly into Welsh-medium education at secondary school.

In exactly the same way as in primary school, Welsh and English are taught as individual subjects in Welsh-medium education. Other subjects as well as extra-curricular activities are taught through the medium of Welsh, and also extracurricular activities. In this way, the young person's bilingualism is maintained and developed throughout his education.

A young person who received a Welsh-medium education at primary would be expected to continue with that programme at secondary school so that they can develop their language skills in English and in Welsh until they leave secondary school.

If you are unsure which path your child should follow from primary to secondary in terms of the learning medium, the primary and secondary school will be able to give you guidance that follows the protocol in the county.

As English is omnipresent in the media, social media etc., young people's Welsh skills will be reinforced if they use Welsh outside the classroom as much as possible. It is a good idea to give them an opportunity to use Welsh at home, in their leisure activities or whilst watching television.

Symudodd Daniel a Claire Snow i Gymru tua 20 mlynedd yn ôl. Dechreuodd y plant mewn ysgol cyfrwng Saesneg ond, o ganlyniad i gau yr ysgol hynny, symudwyd y plant i Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg. Mae Fleur wedi gorffen blwyddyn dramor yn Ffrainc gydag un flwyddyn ar ôl ym Mhrifysgol Rhydychen. Mae Jay ar flwyddyn allan rhwng ysgol a choleg ac newydd dreulio ychydig o fisoedd yn teithio yr Ariannin a gweld y byd Cymraeg sydd yno.

## ● Fleur Snow

“Hyd yn oed amser o’n i’n symud o ysgol fach i ysgol fowr.... o’n i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers tair blynedd ar y pwynt yna, so o’dd e’ bach yn *shaky*, o’n i ddim yn gw’bod os bydden i’n *copo*, ond ma lot o gymorth i gael. Ma pobl sy’n siarad Cymraeg yn moyn i bobl eraill siarad Cymraeg i fod yn gyffyrddus yn Gymraeg.”

## ● Jay Snow

“Mae’r Gymraeg i fi yn neud i fi berchen yma – do fe dda’th fy rhieni o ardal arall, ond y peth sy’n hela fi i ddod o’r ardal yma yw bod y Gymraeg ‘da fi rhywbeth o’r tir, rhywbeth o’r hanes.

“Amser chi’n dysgu un iaith, mae popeth arall yn dod yn haws. Dwi’n dechre ar fy mhedwerydd iaith. Allen i ddim fod wedi dechre ar Sbaeneg a Ffrangeg heb gael y sylfaen yn Gymraeg, heb ddeall shwt ma creu iaith a shwt mae e’n rhoi pethe at ei gilydd....”

# ASTUDIAETH ACHOS

## ● Daniel a Claire Snow

“Fe benderfynom felly, iawn, fe awn amdani yn Gymraeg, a dyna’r peth gorau ddigwyddodd, go iawn, oherwydd heb hynny fydden ni ddim, mae’n debyg, wedi mentro, ac rydym wedi elwa cymaint ohono.

“Y peth mwyaf yw peidio gallu helpu, neu boeni nad ydych yn gallu helpu... ond er nad ydych yn gallu siarad yr iaith, gallwch ddeall syniadau. Felly gallwch siarad am y llyfr maent yn ei ddarllen er ei fod yn Gymraeg, gallwch siarad gyda nhw am y mathemateg, am bob math o bethau, felly dyw e ddim yn broblem o gwbl.

“Ein cyngor ni yw i chi fynd amdani. Pan ddechreuon ni roedd yna gymaint o siarad am pa mor anodd fyddai hi i’n plant ni i ffitio mewn ac os oeddech yn anfon nhw i’r ysgol yn ifanc... a’r broblem yw os nad ydych yn anfon eich plentyn i addysg cyfrwng Cymraeg, mae yna gymuned gyfan na fyddant yn rhan ohoni yn agos i’w cartref, felly doedd e ddim mor anodd â’r hyn roedd pobl yn dweud wrthym y byddai. Ewch amdani, dyna’r ateb. Fy nghyngor i i unrhyw un sy’n meddwl am y peth, ewch amdani. Byddwch yn ddewr ac fe fydd yn ychwanegu gymaint at eu bywydau nhw ac at eich bywyd chi hefyd... i ni, nid yn unig i’r plant, rydyn ni wedi bod yn rhan o’r gymuned ehangach ers i’r plant gael addysg cyfrwng Cymraeg.

Maen nhw’n rhan o’r gymuned nawr a dydy e ddim yn golygu bod eu Saesneg yn dioddef... dydych chi ddim yn colli, mae yna ganfyddiad eich bod chi’n mynd i gollu rhywbeth drwy eu hanfon i ysgol gyfrwng Gymraeg, dydych chi ddim, rydych chi ar eich hennill, a dyna ni wir.”

## Anogwch eich plant i siarad Cymraeg

– yn y cartref, wrth  
chwarae, gyda ffrindiau,  
gyda’r teulu ac yn y siop ac  
ar y stryd.



Daniel and Claire Snow moved to Wales about 20 years ago. Their children started at an English medium school but when that school was closed the children were moved to a Welsh-medium primary school. Fleur has just finished a year in France and has one year left at Oxford University. Jay is on a gap year before he goes to college and has just spent a couple of months travelling in Argentina and visiting the Welsh-speaking community out there.

### ● Fleur Snow

“Even when I moved from primary school to secondary school... I’d been learning Welsh for three years at that point, so it was a bit shaky, I didn’t know if I could cope, but there’s a lot of support. People who speak Welsh want other people to speak Welsh and to feel comfortable speaking Welsh.”

## CASE STUDY

### ● Jay Snow

“Welsh makes me feel as if I belong here – yes my parents came from another area, but the thing that makes me come from this area is that I have the Welsh language, something of the land, something of the history.

“When you learn one language, everything else is easier. I have started learning my fourth language. I could not have started Spanish and French without the grounding in Welsh, without understanding how to create a language and how to put things together...”

### ● Daniel and Claire Snow

“We decided, OK we’ll have a go in Welsh, and it was the best thing that happened, it really was, because without that we might not have dared to it, and we’ve gained so much from it.

“The biggest thing is not being able to help, or worrying that you’re not able to help.... but just because you don’t speak the language, you can understand the ideas. So, you can talk about the book they’re reading, even though it’s in Welsh, you can talk to them about the maths, about all kinds of things, so it wasn’t a problem at all.

“Our advice is, just do it. When we started there was so much talk of how difficult it would be for children to fit in and if you send them early... and the problem is if you don’t send your children to Welsh speaking education, there’s a whole community that they won’t become part of in their home, so it really was not as difficult as we thought and that people were telling us it was going to be. Just do it, that’s the answer. My advice to anyone thinking about it, is to go for it, just do it, be brave it will add so much to their lives and to your life as well.... for us, not just the children, we’ve been part of a much wider community since the children have been educated in Welsh.

They share in a community and it doesn’t make them any worse in English... you don’t lose, there’s this perception that you’re going to lose something by sending them to a Welsh speaking school, you don’t you gain, and that’s it really.”

## Encourage your children to speak Welsh

– in the home, at play, with friends and family, in the shops and on the street.



# Parhau gyda'r Gymraeg Mewn Addysg Bellach

Coleg Ceredigion (Aberteifi ac Aberystwyth)

## Pa gymorth sydd ar gael?

Mae'r Coleg yn darparu rhaglen amrywiol ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio elfennau o'u cwrs neu cyrsiau cyfan trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n cynnig cymorth i fyfyrwyr sy'n astudio'n ddwyieithog neu trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd gwasanaeth 'Help Llaw' yno yn helpu gydag unrhyw agwedd o ddefnyddio'r Gymraeg.

"Nes i gwblhau gwaith cwrs yn Gymraeg. Doedd e ddim mor anodd ag o'n i'n meddwl ac mae digon o help ar gael".

Sion Edwards – Gwaith Brics

# Parhau gyda'r Gymraeg Mewn Addysg Uwch

- Coleg a Phrifysgol

Erbyn heddiw, mae myfyrwyr yn gallu astudio dros 1,000 o gyrsiau yn rhannol neu'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae modd astudio meysydd mor amrywiol â Meddygaeth, Newyddiaduraeth, Gwleidyddiaeth a Daearyddiaeth yn rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg.



Ceir nifer o fanteision dros ddewis astudio cwrs prifysgol yn rhannol neu'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg:

Arian  
ychwanegol

Datblygu sgiliau  
dwyieithog a  
fydd o fantais  
wrth chwilio am  
swydd

Grwpiau  
llai a mwy  
o sylw

Cyfle i ddatblygu  
terminoleg  
ddwyieithog  
mewn maes  
arbenigol

Perthynas  
well gyda  
darlithwyr a  
chyd-fyfyrwyr

**MAE POBL SY'N GALLU  
SIARAD AC YSGRIFENNU  
CYMRAEG YN ENNILL  
BRON I 11% YN UWCH  
AR GYFARTALEDD  
(GYRFA CYMRU)**

Mae Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi ei datblygu er mwyn galluogi myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru i ennill tystysgrif sy'n dangos tystiolaeth o'u sgiliau iaith, a'u gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae llawer o gyflogwyr wedi datgan eu cefnogaeth i'r Dystysgrif, gan gynnwys ITV Cymru a Llywodraeth Cymru.

# Continuing with Welsh in Further Education

Coleg Ceredigion (Cardigan and Aberystwyth)

## What help is available?

The college provides a varied programme for students studying elements of their course or courses through the medium of Welsh. It offers support to students studying bilingually or through the medium of Welsh. The service 'Help Llaw' is there to help with any aspect of using the Welsh language.

"I completed the course work in Welsh. It was not as difficult as I thought it would be and there's plenty of help available".

Sion Edwards – Brickwork



There are many advantages when you choose to study a university course partly or completely through the medium of Welsh:



Smaller groups and more attention

PEOPLE WHO CAN SPEAK AND WRITE WELSH EARN APPROXIMATELY 11% MORE ON AVERAGE (CAREERS WALES)

An opportunity to develop bilingual terminology in an expert field

Develop bilingual skills that will be advantageous whilst searching for a job

Additional money

Better relationship with lecturers and fellow students

# Continuing with Welsh in Higher Education

– College and University

Nowadays, students can study more than 1,000 courses partly or completely through the medium of Welsh.

It is possible to study subjects as varied as Medicine, Journalism, Politics, and Geography through the medium of Welsh.



The Coleg Cymraeg Cenedlaethol's Language Skills Certificate has been developed to enable students who are studying in Wales to gain a certificate that shows evidence of their language skills, and their ability to work through the medium of Welsh. Many employers have expressed their support for the Certificate, including ITV Wales and Welsh Government.

# Grantiau a mwynhau mewn addysg uwch a phellach

Gall pobl ifanc dderbyn bwrsariaeth ar lefel addysg uwch i astudio modiwlau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Gall myfyrwyr gynnig am Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Hefyd mae nifer helaeth o gyfleoedd i fyfyrwyr gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg yn y Coleg a'r Brifysgol.

Ceir Cymdeithas Gymraeg i fyfyrwyr ym Mhrifysgolion Cymru sy'n trefnu gweithgareddau a digwyddiadau cymdeithasol amrywiol, gan gynnwys cystadlu yn yr Eisteddfod Rhyng-golegol, gwyliau cerddorol, gigs a gweithgareddau chwaraeon amrywiol ayyb.

# Grants and enjoying higher and further education

Young people can receive a bursary at higher education level to study modules through the medium of Welsh.

Students can apply for Scholarships with the Coleg Cymraeg Cenedlaethol to study through the medium of Welsh.

There are also many opportunities for students to socialise through the medium of Welsh at College or University.

There are Welsh Societies for students at Welsh University that organise social activities and events, including competing in the Inter-college Eisteddfod, music festivals, gigs and various sporting activities etc.



ASTUDIAETH  
ACHOS

Mae Esther Llwyd Ifan yn gyn-ddisgybl Ysgol Penweddig ac yn astudio'r Gyfraith ym Mhrifysgol Caerdydd

"Mae'r gallu i astudio'r Gyfraith trwy gyfrwng y Gymraeg yn sicr wedi hwyluso fy mhrofiad o astudio ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'r dewis hwn, nid yn unig wedi fy ngalluogi i dderbyn Prif Ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg sydd yn gymorth i ariannu fy mhrofiadau yn y ddinas, ond mae hefyd yn fanteisiol tu hwnt yn academiaidd. Dwi'n medru derbyn fy adborth a thrafod fy ngwaith gyda chyd-fyfyrwyr yn fy iaith fy hun! Rwy'n hynod falch fy mod i wedi manteisio ar y cyfle hwn, ac yn argymhell i unrhyw ddarpar fyfyrwr wneud yr un peth!"

Esther Llwyd Ifan is a former pupil of Ysgol Penweddig and studies Law at Cardiff University



"The ability to study Law through the medium of Welsh has certainly facilitated my experience of studying at Cardiff University. This option, not only has enabled me to receive the Coleg Cymraeg Main Scholarship that helps fund my experiences in the city, but it is also an extra academic advantage. I can receive feedback and discuss my work with fellow students in my own language! I'm delighted that I have taken this opportunity and recommend that any prospective student do the same! "

CASE  
STUDY





## Y Gymuned

Mae cymunedau Ceredigion ymhlith y cymunedau dwyieithog mwyaf bywiog yng Nghymru. Yma mae cymunedau bywiog, dwyieithog lle ceir ystod eang o ddigwyddiadau diwylliannol a chymunedol.

Mae grwpiau cymunedol yn chwarae rhan hanfodol yn ein cymunedau ac mae eu cyfraniad i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn amhrisiadwy. Mae yna gyfleoedd i blant a phobl ifanc trwy ymuno â grwpiau fel CFFI (Clybiau Ffermwyr Ifanc) a'r Urdd a gweithgareddau Theatr Felin-fach, Theatr Troedryhiw, Radio Beca a Theatr Arad Goch.

Mae nifer o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn fel gigs, eisteddfodau lleol, ffeiriau, cyngherddau, a dathliadau. Bydd y rhan fwyaf o'r digwyddiadau hyn yn cael eu cynnal yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

## The Community

Ceredigion communities are amongst the most active bilingual communities in Wales. There are lively bilingual communities here, where a variety of cultural and community events are held.

Community groups play an essential part in our communities and their contribution to promote and facilitate the use of the Welsh language is invaluable. There are opportunities for children and young people to join groups such as Young Farmers' Clubs and the Urdd (youth organisation) and activities at Theatr Felinfach, Theatr Troedryhiw, Radio Beca and Theatr Arad Goch.

A number of events are held during the year such as gigs, local eisteddfodau, fairs, concerts, and celebrations. Most of these activities will be held in Welsh or bilingually.

# Cymraeg i Blant

Mudiad Meithrin



Cynllun newydd gan Lywodraeth Cymru, a reolir gan Mudiad Meithrin, yw Cymraeg i Blant. Prif nod y cynllun yw cynnig cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth i rieni, darpar rieni a'u teuluoedd ar fuddion addysg/gofal Cymraeg a chyflwyno'r Gymraeg yn gynnar i'w plant.

Yn Sir Ceredigion mae gwaith 'Cymraeg i Blant', o ddydd i ddydd, yn canolbwyntio ar gynnig sydd yn cynnwys; Grwpiau cyn-geni (cynllun peilot yn cydweithio gyda bydragedd/ysbytai'r Sir, Grwpiau Tylino (10 wythnos +), Grwpiau Ioga Babi (10 wythnos +) a Grwpiau Stori a Chân (0-3 oed).

Mae'r grwpiau hyn yn addas i ddysgwyr, rhieni di-gymraeg a siaradwyr Cymraeg. Am fwy o wybodaeth ynglŷn â grwpiau lleol cysylltwch â Cymraeg i Blant ar **01970 639639** / [cymraegiblant@meithrin.cymru](mailto:cymraegiblant@meithrin.cymru)

[www.facebook.com/CymraegiBlantCeredigion](https://www.facebook.com/CymraegiBlantCeredigion)

[www.facebook.com/Cymraegiblant](https://www.facebook.com/Cymraegiblant)

## Cymraeg i Blant

CYMRÆG

I Blant  
For Kids

Mudiad Meithrin

Cymraeg i Blant (Welsh for Kids) is a new scheme by the Welsh Government, which is managed by Mudiad Meithrin. The scheme's main aim is to offer advice, information and support to parents, prospective parents, and families about the benefits of Welsh education/care and introducing Welsh early to children.

In Ceredigion the day to day work of Cymraeg i Blant (Welsh for Kids) concentrates on offering the following; Antenatal Groups (pilot scheme that works with midwives/county hospitals), Massage Sessions (10 weeks +), Baby Yoga Groups (10 weeks +) and Story and Song Groups (0-3 years).

These groups are appropriate for learners, non-Welsh speaking parents and Welsh speakers. For more information about local groups contact Cymraeg i Blant (Welsh for Kids) on 01970 639639 / [cymraegiblant@meithrin.cymru](mailto:cymraegiblant@meithrin.cymru)

[www.facebook.com/CymraegiBlantCeredigion](https://www.facebook.com/CymraegiBlantCeredigion)

[www.facebook.com/Cymraegiblant](https://www.facebook.com/Cymraegiblant)

## C.Ff.I. Ceredigion

Mae Ffederasiwn C.Ff.I. Ceredigion yn gweithredu bron yn gyfan-gwbl yn Gymraeg. Maent yn defnyddio dulliau cyfathrebu dwyieithog yn achlysurol er mwyn cynnwys y di-Gymraeg ond y Gymraeg yw prif iaith y Mudiad yma yng Ngheredigion. Maent yn cynnal pob cystadleuaeth/digwyddiad yn y Gymraeg o'r Eisteddfod i'r Siarad Cyhoeddus; o'r Adloniant i'r Rali.

Mae gan fudiad y C.Ff.I. 18 o glybiau yng Ngheredigion gyda dros 700 o aelodau rhwng 10-26 oed yn y sir. Mae calendr y Mudiad yn llawn dop gydag amrywiaeth o gystadlaethau/digwyddiadau yn digwydd yn flynyddol. Pinacl y flwyddyn yw y Rali a gynhelir ar y Sadwrn cyntaf ym mis Mehefin, ac mi fydd yr enillwyr hyn yn elwa o'u llwyddiant drwy gynrychioli'r Sir ar lefel Cymru yn Sioe Frenhinol Amaethyddol Cymru.

Mae'r aelodau sydd yn mynychu y C.Ff.I. yn datblygu sgiliau, meithrin doniau, magu hyder, ehangu eu gorwelion ac yn creu cyfeillgarwch gyda gweddill aelodau'r Sir, Cymru ac ymhellach. Heb os mae'r Mudiad yn rhan annatod o fywyd Cefn Gwlad ac mae pob llywydd gydol y blynyddoedd yn dweud eu bod mawr eu dyled i'r Mudiad am y cyfleon a gawsant pan yn aelodau.



## Ceredigion Young Farmers' Clubs

The Ceredigion Federation of Young Farmers' Clubs operates almost entirely in Welsh. They communicate bilingually occasionally to include non-Welsh speakers but Welsh is the main language of this association in Ceredigion. Every competition/event is held in Welsh, from the Eisteddfod to Public Speaking and from Entertainment to the Rally.

The Young Farmers' Clubs association has 18 clubs in Ceredigion with more than 700 members between 10-26 years of age in the county. The association's calendar is full to the brim of a variety of competitions/events that are held annually. The year's pinnacle is the Rally that is held on the first Saturday of June and the winners will benefit from their success by representing the County at an all-Wales level at the Royal Welsh Agricultural Show.

Members of the Young Farmers' Clubs develop skills, gain talents, build confidence, expand their horizons and sustain friendships with other County members, in Wales and further afield. The Association is undoubtedly an innate part of rural life. Every Club leader over the years has said that they are indebted to the Association for the opportunities they had whilst they were members.

## Dysgu Cymraeg Ceredigion

Mae Dysgu Cymraeg Ceredigion yn cynnal cyrsiau Dysgu Cymraeg yn y gymuned ac yn y gweithle. Maent yn cynnwys cyrsiau sy'n addas i ddysgwyr ar bob lefel, o ddechreuwyr pur i siaradwyr rhugl sydd am wella eu sgiliau. Mae cyrsiau hefyd i rieni sydd eisiau siarad Cymraeg yn y teulu. Gallwch chi ddysgu ar gyflymdra sy'n addas i chi, ar gwrs unwaith neu ddwywaith yr wythnos. Mae dros 100 o ddysgwyr yn dod ar y Cwrs Haf Dwys am bedair wythnos bob mis Awst, a chynhelir ysgolion undydd a chyrсияu eraill i adolygu ac ymarfer drwy gydol y flwyddyn. Gallwch hefyd ymuno mewn llawer o weithgareddau hwyliog i ymarfer siarad Cymraeg tu allan i'r dosbarth.

[www.dysgucymraeg.cymru](http://www.dysgucymraeg.cymru) | [dysgucymraeg@aber.ac.uk](mailto:dysgucymraeg@aber.ac.uk) | 0800 876 6975

CYMRÆG

## Learn Cymraeg Ceredigion

Learn Cymraeg Ceredigion offers Welsh courses in the community and in the workplace. They offer courses that are appropriate for learners on every level, from total beginners to fluent speakers who want to improve their skills. There are also courses for parents who want to speak Welsh as a family. You can learn at your own pace, on a course held once or twice a week. More than 100 learners attend their Summer Intense Course for four weeks every August, and one-day schools and other courses are offered to revise and practice throughout the year. You can also join in many fun activities to practice speaking Welsh outside of the classroom.

[www.dysgucymraeg.cymru](http://www.dysgucymraeg.cymru) | [dysgucymraeg@aber.ac.uk](mailto:dysgucymraeg@aber.ac.uk) | 0800 876 6975



## Yr Urdd

Sefydlwyd Urdd Gobaith Cymru yn 1922 i roi cyfle i blant a phobl ifanc i ddysgu ac i gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg. Nod yr Urdd yw sicrhau cyfle, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, i holl ieuenctid Cymru (rhwng 8 a 25 oed) ddatblygu'n unigolion cyflawn; a'u galluogi i chwarae rhan adeiladol yn y gymdeithas gan feithrin sgiliau personol a chymdeithasol.

Mae gan yr Urdd glybiau chwaraeon, adrannau ac aelwydydd, cyfleoedd diwylliannol a Chanolfannau preswyl. Mae Ceredigion yn sir fywiog, llawn gweithgareddau amrywiol o deithiau i jamboris, o weithdai i Gigs! Mae gan yr Urdd rhywbeth at ddant pawb! Felly gallwch ymuno am ddigonedd o hwyl mewn awyrgylch Gymraeg a Chymreig.

[www.urdd.cymru/cy/fy-ardal/ceredigion/](http://www.urdd.cymru/cy/fy-ardal/ceredigion/)  
[www.urdd.cymru/cy/ein-gwersylloedd/](http://www.urdd.cymru/cy/ein-gwersylloedd/)

## The Urdd

Urdd Gobaith Cymru was established in 1922 to provide an opportunity for children and young people to learn and socialise through the medium of Welsh. The aim of the Urdd is to offer an opportunity, through the medium of Welsh, for all young people in Wales (between 8 and 25 years) to develop into whole individuals; and enable them to play a constructive part in society by developing personal and social skills.

The Urdd has sport clubs, youth clubs, cultural opportunities, and residential centres. Ceredigion is a lively county, with a variety of activities from trips to jamborees, workshops, and gigs! The Urdd has something for everyone! So, become a member and have loads of fun in a Welsh environment.

[www.urdd.cymru/cy/fy-ardal/ceredigion/](http://www.urdd.cymru/cy/fy-ardal/ceredigion/)  
[www.urdd.cymru/cy/ein-gwersylloedd/](http://www.urdd.cymru/cy/ein-gwersylloedd/)



## Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion

Cenhadaeth Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion yw cynnig cyfleoedd addysg ffurfiol ac anffurfiol i bobl ifanc 11-25 oed sy'n addysgiadol, yn gyfranogol, yn rymusol ac yn fynegiannol, mewn amgylchedd sy'n hygyrch, yn groesawgar ac yn ddiogel. Perchir treftadaeth ddwyieithog Ceredigion ac yn cynnig darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r clybiau yn gweithredu'n naturiol ddwyieithog, yn ddibynnol ar yr aelodau, ac mae gweithgareddau penodol fel cyfres Digwyddiadau'r Haf, e.e. gweithdai celf a graffiti, diwrnodau antur a chyrtsiau blasu yn gyfan gwbl ddwyieithog.

**Ffon: 01545 572352**  
**E-bost: [ieuentid@ceredigion.gov.uk](mailto:ieuentid@ceredigion.gov.uk)**

## Ceredigion Youth Service

Ceredigion Youth Service's mission is to offer formal and informal education opportunities to young people aged 11-25 that are educational, contributory, empowering and expressive, in an accessible, welcoming and safe environment. Ceredigion's bilingual heritage is respected and provision is offered through the medium of Welsh and English. The clubs naturally operate bilingually, depending on the members, and specific activities such as the series of Summer Events, e.g. art and graffiti workshops, adventure days and taster courses are completely bilingual.

**Tel: 01545 572352**  
**E-mail: [youth@ceredigion.gov.uk](mailto:youth@ceredigion.gov.uk)**

## Theatr Felinfach

Mae Theatr Felin-fach yn cynnig ystod o weithgareddau creadigol i bob oed: sesiynau cân, dawns a stori i fabanod a phlant bach a'u rhieni (addas i bawb – siaradwyr rhugl, dysgwyr a'r di-Gymraeg), clybiau dawns, clybiau drama, ysgol berfformio a gweithgareddau theatr ieuencid – mae'r holl gyfleoedd yn gweithredu drws-agored ac yn hybu'r Gymraeg a dwyieithrwydd mewn ffordd sy'n hwyli, sy'n greadigol a chymdeithasol.

<https://theatrfelinfach.cymru/>

## Theatr Felinfach

Theatr Felinfach offers a variety of creative activities for all ages: singing sessions, dance and stories for babies and small children and their parents (appropriate for all – fluent speakers, learners, and non-Welsh speakers), dance clubs, drama clubs, a performance school and youth theatre activities – all the activities operate an open-door policy and promote Welsh and bilingualism in a way that is fun, creative and social.

<https://theatrfelinfach.cymru/>

Mae Iestyn Thomas, o Ddyfryn Aeron, yn Bennaeth Criw a Thechnegydd Goleuo ar deithiau cerddoriaeth rhyngwladol.

“Ar ôl manteisio ar y cyfleoedd Cymraeg oedd ar gael i mi drwy Theatr Felinfach a CFFI lle fagais brofiadau ymarferol eang iawn, cefais gynnig diamedd i fynychu Royal Academy of Dramatic Art (RADA) er mwyn astudio fy nghreffft.

“Uchafbwyntiau fy ngyrfa hyd yma yw

gweithio ar Brif Lwyfan Glastonbury gyda Coldplay a'r Killers, bod yn Bennaeth Criw Goleuo ar y Desert Trip Festival gyda The Who a theithio parhaus i wledydd newydd gydag artistiaid fel Bryan Adams, Andrea Bocelli a Pink. Rydw i bellach wedi dychwelyd i fyw yn sir Ceredigion ond yn parhau i weithio'n rhyngwladol. Rydw i mor falch bod fy mhlant yn mynd i allu manteisio ar y cyfleoedd Cymraeg sydd ar gael yn sir Ceredigion sy'n agor drysau i'r byd, fel gwnes i.”

Iestyn Thomas, from Dyffryn Aeron, is Head of Crew and a Lighting Technician on international music tours.

“Having benefitted from opportunities in Welsh that were available to me through Theatr Felinfach and the Young Farmers' Clubs where I gained varied practical experiences, I was given an unconditional offer to go to the Royal Academy of Dramatic Art (RADA) to study my craft.

“The highlight of my career so far has been working on the Main Stage at Glastonbury

with Coldplay and the Killers, being the Head of the Lighting Crew at the Desert Trip Festival with The Who and constantly travelling to new countries with artists such as Bryan Adams, Andrea Bocelli and Pink. I have returned to live in Ceredigion now but I continue to work internationally. I'm so glad that my children are going to be able to benefit as I did from the Welsh opportunities in Ceredigion that open doors to the world.”

## CASE STUDY

## Clybiau Chwaraeon

Mae gan sir Ceredigion amrywiaeth eang o gyfleon chwaraeon trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Darperir y gwasanaeth ymhob maes yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn cymryd lle blaenllaw iawn. Gwelir clybiau pêl-droed, rygbi, tenis, criced, beicio a bowlio ymhob tref yn y Sir. Yn ogystal â'r clybiau gwelir nifer amrywiol o glybiau eraill yn bodoli yn y Sir gyda nifer eang yn rhedeg yn wythnosol o ganolfannau hamdden y Sir.

Mae chwe chanolfan hamdden a thri pwll nofio yn dod dan faner y Sir. Cynigir nifer fawr o ddsbarthiadau a sesiynau ffitrwydd yn yr adeiladau yma gyda nifer eang ohonynt yn cael eu harwain trwy gyfrwng y Gymraeg. Darperir gwersi nofio Cymraeg yn y tri pwll nofio gyda'r holl blant yn mwynhau datblygu a dysgu yn eu hiaith naturiol.

## Sport Clubs

Ceredigion can offer a variety of sport opportunities through the medium of Welsh. The service is provided bilingually in every sport with the Welsh language having a prominent place. There are football, rugby, tennis, cricket, cycling and bowling clubs in every town in the County. As well as these clubs, there are several other clubs in the County and many of them are held on a weekly basis from the county's leisure centres.

There are six leisure centres and three swimming pools in the County. Many classes and fitness sessions are held in these buildings and a number of them are held through the medium of Welsh. Welsh-medium swimming lessons are held in the three swimming pools and all the children are happy to develop and learn in their mother tongue.

## Cered: Menter Iaith Ceredigion

Sefydlwyd Cered yn 1999 fel menter iaith oddi fewn i'r awdurdod lleol. Mae ganddi swyddfa yn Felinfach ac Aberystwyth. Mae'r Sir yn un o gadarnleoedd traddodiadol yr iaith a diwylliant Cymraeg, ac mae'n sir allweddol o ran cynllunio a twf a ffyniant yr iaith yng Nghymru.

Mae Cered yn cefnogi, dylanwadu a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn sir Ceredigion er mwyn gosod y seiliau gorau posibl ar gyfer tyfu a datblygu'r Gymraeg ar lefel gymunedol a chymdeithasol, mewn addysg ac yn y byd gwaith. Rydym yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu ac yn parhau i fod yn brif iaith neu'n rhan ganolog yng nghymunedau Ceredigion.



[www.cered.cymru](http://www.cered.cymru) | 01545 572350 | [cered@ceredigion.gov.uk](mailto:cered@ceredigion.gov.uk)

## Cered: Menter Iaith Ceredigion

Cered was established in 1999 as a language scheme within the local authority. It has an office in Felinfach and in Aberystwyth. The County is one of the traditional strongholds of the Welsh language and Welsh culture, and it is a key county in terms of planning, growth, and success of the language in Wales.

Cered supports, influences, and develops the use of the Welsh language in Ceredigion to build the strongest possible foundations for growing and developing the Welsh language on a community and social level, in education and in the workplace. We provide information, advice, and guidance to ensure the Welsh language prospers and continues to be the main language or a central part of communities in Ceredigion.

[www.cered.cymru](http://www.cered.cymru) | 01545 572350 | [cered@ceredigion.gov.uk](mailto:cered@ceredigion.gov.uk)

## Gwyliau Blynyddol

Cynhelir nifer o wyliau cerddorol a diwylliannol benodol Gymraeg ar draws y sir, gan gynnwys:

- **Gŵyl Nôl a 'Mlaen (Llangrannog)**
- **Tregaroc (Tregaron)**
- **Gŵyl y Cynhaeaf (Aberteifi)**
- **Gŵyl Crug Mawr (Pen-parc)**
- **O Gam i Gam (Derwen Gam)**

At hynny, cynhelir sioeau, dawnsfeydd a charnifalau dirifedi yng nghymunedau'r sir dros fisoedd yr haf gyda nifer yn rhoi lle amlwg i'r Gymraeg.

## Annual Festivals

Several musical and cultural festivals that are specifically Welsh are held across the county, including:

- **Gŵyl Nôl a 'Mlaen (Llangrannog)**
- **Tregaroc (Tregaron)**
- **Gŵyl y Cynhaeaf (Cardigan)**
- **Gŵyl Crug Mawr (Pen-parc)**
- **O Gam i Gam (Derwen Gam)**

In addition to these there are numerous other shows, dances and carnivals in the county's communities over the summer months and the Welsh language is prominent in many of these.

## Eisteddfodau Lleol

Mae'r eisteddfodau yn darparu gweithgareddau a bwrlwm diwylliannol yn eu cymunedau gan roi cyfleoedd cystadlu, perfformio a chyfansoddi i bawb o bob oed.

Ar hyn o bryd mae dros 120 o eisteddfodau pentref neu eisteddfodau 'lleol' yng Nghymru gydag ugain o'r rhain yn cael eu cynnal yng Ngheredigion a'r cyffiniau. Bydd

## Local Eisteddfodau

The eisteddfodau provide a flurry of cultural activities in their communities, with opportunities to compete, perform and compose for people of all ages.

At present, more than 120 village or local eisteddfodau are held in Wales and twenty of these are held in Ceredigion and the surrounding area. Some eisteddfodau are

rhai eisteddfodau'n cael eu cynnal dros gyfnod o brynhawn a gyda'r nos, rhai dros ddau neu dri diwrnod (e.e., Eisteddfodau Panyfedwen - Aberteifi, Pontrhydfendigaid a Llanbedr Pont Steffan).

Mae gwybodaeth gyfredol ynghylch dyddiadau'r eisteddfodau a'u rhestrau testunau i'w cael ar gefn y newyddlen Steddffota a welir ar wefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru: <http://smala.net/steddfota/>

held during the afternoon and evening, some over two or three days (e.g. Eisteddfodau Panyfedwen - Cardigan, Pontrhydfendigaid and Llanbedr Pont Steffan).

Current information regarding the dates of the eisteddfodau and a list of subjects are available on the back of Steddffota, the society's newsletter, that can be seen on the website of Cymdeithas Eisteddfodau Cymru: <http://smala.net/steddfota/>

## Papurau Bro

Ceir 10 papur bro yng Ngheredigion, gyda'r diweddaraf, Y Dwrgi yn Aberteifi, wedi ei sefydlu yn 2015. Maen nhw'n gwasanaethu pob cymuned o fewn y sir. Gyda'i gilydd, cyfrifir eu bod yn cael eu darllen gan yn agos at 7,000 o ddarllenwyr. Am restr o bapurau bro y Sir, ewch i wefan Cered <http://cered.cymru/papurau-bro-ceredigion/>

## Papurau Bro (Local Paper)

There are 10 local papers in Ceredigion, and the latest, Y Dwrgi, in Cardigan, was established in 2015. They serve each community within the county. Together, it has been calculated that they are read by almost 7,000 readers. For a list of the County's papurau bro, go to the Cered website <http://cered.cymru/papurau-bro-ceredigion/>

CYMRÆG



## PLUEN ARALL YN EICH HET

Mae arbenigwyr yn amcangyfrif bod dros hanner poblogaeth y byd yn siarad mwy nag un iaith – rho gyfle i dy blentyn wneud hynny hefyd. Mae dros draean o gyflogwyr yn credu bod sgiliau iaith Gymraeg yn bwysig ar gyfer eu gwasanaeth cwsmer, ac mae dros chwarter cyflogwyr yn credu y byddent yn elwa o gael mwy o sgiliau iaith Gymraeg.

## ANOTHER STRING TO YOUR BOW

Experts estimate that more than half the world's population can speak more than one language – give your child the opportunity to do so too. Just over a third of employers think Welsh language skills are important for their customer service, and over a quarter of employers think they would benefit from more Welsh language skills.